19 Mehefin 2007

**GWNEUTHURWYR FFILM O GYMRU YN CYFLWYNO 'PITCH' I ARIANWYR A DOSBARTHWYR BYD-EANG**

Dewiswyd dau o wneuthurwyr ffilm o Gymru ar gyfer Rhaglen Hyfforddiant wych 'Film London' ar gyfer Cynhyrchwyr Newydd a Chynhyrchwyr sy'n Datblygu.

Ym mis Medi bydd y wneuthurwraig ffilm o Gaerdydd, Helen Grace, a'r cynhyrchydd o Bort Talbot, Antony Smith, yn cael cyfle i ddatblygu eu sgiliau creadigol ac ariannol wrth gyflwyno 'pitch' mewn sesiwn hyfforddi ffurfiol. Byddant wedyn yn rhoi'r cyflwyniad o flaen panel, yn null y 'Dragon's Den', fydd wedyn yn dewis yn gystadleuol, tua 15 o brosiectau i gymryd rhan yn y Farchnad Ariannu Cynhyrchu gyntaf erioed. Wedyn bydd y digwyddiad yn cael ei gynnal ar 22-23 o Hydref 2007, mewn cydweithrediad â 51ed Gŵyl Ffilm y Times BFI Llundain.

Cynhelir y digwyddiad mewn lleoliad yng nghanol Llundain, ac yn ystod y ddau ddiwrnod bydd cyfle i gynhyrchwyr, arianwyr a ffurfiau newydd o fuddsoddi ac ariannu ddod at ei gilydd. Bydd mwy na 100 o gynhyrchwyr ffilm a phrif arianwyr o Brydain, Ewrop a rhai rhyngwladol yn bresennol gan roi cyfle i gynhyrchwyr gyflwyno 'pitch' i fuddsoddwyr ecwiti preifat.

Anfonodd Asiantaeth Ffilm Cymru wyth o enwau cynhyrchwyr a anwyd yng Nghymru, neu o gwmnïau a sefydlwyd yng Nghymru, i'w hystyried gan 'Film London', a Helen Grace ac Antony Smith oedd yn llwyddiannus.

Bydd Helen Grace, cyfarwyddwr a chynhyrchydd 'Little Dragon Films', yn cyflwyno'i ffilm £4miliwn 'The Escape Artist', comedi am ddyn canol oed sy'n esgus ei fod yn wallgof er mwyn dianc o gyffredinedd ei fywyd bob dydd. Ysgrifennwyd 'The Escape Artist' gan Julia Van Develder, ac yn 2005 y sgript hon oedd yn fuddugol yng nghystadleuaeth sgript y 'Final Draft Big Break'. Bydd rhywfaint o'r ffilmio a'r gwaith ôl-gynhyrchu'n digwydd yng Nghymru. Mae Helen yn gweithio â Michel Shane, cynhyrchydd o

Hollywood, ar y prosiect yma.  Ym mysg ffilmiau eraill bu Michel Shane yn gyfrifol amdanynt mae 'I, Robot' a 'Catch Me if You Can'.

Wedi cychwyn ei gyrfa fel cynhyrchydd a chyfarwyddwr lleoliadau ar raglenni teledu proffil uchel ym Mhrydain, ar gyfer rhwydweithiau ITV a Channel 5, mae gwaith Helen yn cynnwys, 'News at Ten', 'The Royal Wedding', 'The Budget Programme' a 'Jailbreak'. Ers 2001 mae wedi cyfarwyddo a chynhyrchu tair ffilm fer, gan gynnwys un a enwebwyd ar gyfer BAFTA Cymru sydd wedi ei dewis ar gyfer mwy na 30 o wyliau ffilm rhyngwladol.

Yn 2004 derbyniodd Helen Wobr y Comisiwn Ewropeaidd ar gyfer Talent Newydd yn y Cyfryngau.  Yn 2005/06 fe gyfarwyddodd 'Are You Ready for Love?', ffilm gomedi lwyddiannus, sydd ar hyn o bryd yn cael ei gwerthu gan Carnaby International. Yn ogystal â 'The Escape Artist', mae Helen ynghlwm â'r ffilm gomedi 'Lunchbox', sydd wedi derbyn nawdd gan Asiantaeth Ffilm Cymru.

"Yr un pryd a cheisio sicrhau nawdd ar gyfer 'The Escape Artist', 'rydym hefyd yn siarad ag actorion adnabyddus sydd wedi dangos diddordeb mewn cael eu castio yn y ffilm," meddai Helen Grace.

"Mae cael fy newis ar gyfer y Rhaglen Hyfforddi ar gyfer Cynhyrchwyr yn gyfle gwych i mi gryfhau cyflwyniad 'The Escape Artist', i adnabod diddordeb mewn ariannu a dosbarthu ac, efallai, i greu cysylltiad hollbwysig fydd yn cefnogi cynhyrchu'r ffilm."

Yn ymuno â Helen Grace bydd Antony Smith o Tornado Films, fydd yn cyflwyno'i 'pitch' am ei ffilm arswyd 'Nocturne'. Mae'r ffilm, sydd mewn datblygiad ar hyn o bryd, yn adrodd stori dyn sydd wedi'i ddal yng nghanol brwydr grefyddol dragwyddol a ddaw i ben mewn un noson.

Gyda chefnogaeth ariannol  Asiantaeth Ffilm Cymru, mae 'Nocturne' yn un o'r pum  ffilm sydd ar lechen ddatblygu Tornado Films,  a sefydlwyd ym Mhort Talbot.  Mae Antony hefyd yn uwch gynhyrchydd gyda Boomerang ac yn goruchwylio llechen o 12 ffilm, ble mae'n gweithio'n agos â Sioned William, cyn rheolwraig Rhwydwaith Comedi ITV, a Marc Evans, cyfarwyddwr ffilm rhyngwladol adnabyddus.  Mae ei waith yn cynnwys 'My

Little Eye', 'Trauma' a 'Snow Cake'. Mae llechen Boomerang yn cael ei chynnal gan S4C.

Dechreuodd Antony ei yrfa yn Adran Ddrama HTV Cymru ym 1998, yna yn 2002 sefydlodd Tornado Films. Mae wedi cynhyrchu, neu gyd-gynhyrchu, mwy na 15 ffilm fer, ac wedi bod ynghlwm â nifer o ffilmiau hir gan gynnwys 'Reaching Higher' a 'The Testimony of Taliesin Jones'. 'Roedd hefyd yn gyfrifol am greu 'Life and Debt', drama a enwebwyd ar gyfer gwobr BAFTA Cymru.

"Yn Tornado Films 'rydym yn ymfalchïo mewn darparu rhaglenni o ansawdd uchel sy'n cyfathrebu eu bwriad mewn ffordd ddifyr a chreadigol. Mae 'Nocturne' yn esiampl wych o'r hyn allwn ni ei gynnig i'r farchnad ffilm ryngwladol, ac 'rydym yn mawr obeithio y bydd y cyfle i ymuno â'r rhaglen hyfforddi arbennig hon yn ein galluogi i sicrhau buddsoddiad masnachol," medd Antony Smith.

Yn ôl Angus Finney o 'Film London', prif amcanion y digwyddiad yw ysgogi diddordeb y ddinas a chreu cysylltiad cyfalafol preifat yn y diwydiant cynhyrchu ffilm:

"Bydd yr arianwyr yn cael cyfle i ddewis cwmnïau ffilm, cynhyrchwyr, a phrosiectau sydd â photensial i fod o ddiddordeb iddynt. Mae gan y digwyddiad uchafswm o tua 45 o uwch gynhyrchwyr Prydeinig a rhyngwladol, sy'n golygu fod disgwyl i bob prosiect a llechen fod o safon uchel iawn."

"Mae'r digwyddiad yma'n gyfle gwych i ddarparu hyfforddiant ymarferol i rai o gynhyrchwyr mwyaf addawol Prydain," ychwanegodd Pauline Burt, Prif Swyddog yr Asiantaeth Ffilm.

"Mae gennym gyfoeth o dalent yn y byd gwneud ffilmiau yma yng Nghymru, a 'rydym ni, fel Asiantaeth, yn canolbwyntio ar wneud y gorau o bob cyfle sydd ar gael i gynhyrchwyr sy'n datblygu eu crefft. Bydd Helen ac Antony'n cael y cyfle i gyflwyno'u 'pitch' i rai o brif arianwyr y farchnad gan obeithio sicrhau buddsoddiad corfforaethol a/neu lechen. 'Rydym yn dymuno pob llwyddiant iddynt ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i gefnogi cynhyrchu eu prosiectau."

Ariannir Asiantaeth Ffilm Cymru gan Gyngor Celfyddydau Cymru, yr 'UK Film Council' a Llywodraeth Cynulliad Cymru, drwy Busnes Creadigol Cymru. Sefydlwyd yr olaf er mwyn cefnogi, annog a chynyddu amrywiaeth a nifer y ffilmiau sy'n cael eu cynhyrchu yng Nghymru, ac i feithrin y doreth o dalent greadigol sydd ar gael yng Nghymru.

**-Diwedd-**

***Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Lisa Jenkins ar 0790 873 8763***

NODIADAU I OLYGYDDION:

- Mae mwy o wybodaeth am Little Dragon Films a 'The Escape Artist' ar gael ar www.littledragonfilms.net <http://www.littledragonfilms.net>.
- Mae gwybodaeth am 'Nocturne' a Tornado Films ar gael ar www.tornadofilms.com <http://www.tornadofilms.com>.
- Mae gwybodaeth am Asiantaeth Ffilm Cymru ar gael ar www.filmagencywales.com <http://www.filmagencywales.com>
- Mae gwybodaeth am 'Film London' a'r Rhaglen Hyfforddi ar gyfer Cynhyrchwyr Newydd a Chynhyrchwyr sy'n Datblygu ar gael ar www.filmlondon.org.uk <http://www.filmlondon.org.uk>